



Cymru Greadigol Creative Wales

NODIADAU CYFARWYDDYD ALLANOL

Cronfa Bartneriaeth Cymru Greadigol

Galwad Agored 2026/27

Bydd y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn eich helpu i lenwi'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Bartneriaeth Cymru Greadigol.

1. Cymru Greadigol - Cyd-destun Strategol

Adeiladu Cymru Hyderus, Gysylltiedig a Arweinir gan Weithgaredd Creadigol

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn rhan bwysig o economi Cymru, gan greu swyddi a chyfoeth, cyfrannu at frand cenedlaethol cryf a hyrwyddo Cymru yn y byd. Mae Cymru Greadigol yn rhan o Lywodraeth Cymru, ac fe'i sefydlwyd yn benodol i roi hwb pellach i dwf y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac i gynnig gwasanaeth effeithlon, deinamig ac arloesol i'r sector.

Datganiad Cenhadaeth Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn bodoli i atgyfnerthu Cymru fel gwlad hyderus, greadigol ac fel economi greadigol ddeinamig, lle mae diwylliant, iaith a datblygiadau arloesol yn sbarduno cynhyrchiant, twf economaidd, cyflogaeth sy'n talu'n dda a phresenoldeb unigryw yn fyd-eang.

Cenhadaeth Cymru Greadigol yw cefnogi dyfodol creadigol dan arweiniad Cymru drwy fuddsoddi yn y bobl, y lleoedd a'r mentrau sy'n pwerau'r diwydiannau creadigol. Drwy'r dull hwn, gall doniau o Gymru, syniadau o Gymru ac eiddo deallusol sy'n eiddo i Gymru dyfu'n fusnesau cynaliadwy, creu cyflogaeth sy'n talu'n dda a chyrraedd cynulleidfaoedd ym mhob cwr o'r byd.

Datganiad cenhadaeth ac amcanion strategol Cymru Greadigol

Bydd Cymru Greadigol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu economi greadigol sydd fel a ganlyn:

- **Yn gynhyrchiol, teg a chynaliadwy** - lle mae gweithwyr llawrydd, gweithwyr a mentrau yn cael y sicrwydd, yr hawliau, y buddsoddiad a'r twf y mae arnynt eu hangen i wella cynhyrchiant, bod yn gystadleuol a thyfu yng Nghymru.
- **Yn fedrus a hyblyg** - gyda llwybrau dysgu gydol oes sy'n paratoi pobl a busnesau ar gyfer tirwedd ddigidol sy'n newid yn gyflym ac sy'n cael ei hysgogi gan ddeallusrwydd artifisial.

- **Yn rhanbarthol gytbwys** - gyda chlystyrau creadigol cryf ar draws Gogledd, Canolbarth, Gorllewin a De Cymru yn cael eu cefnogi gan y seilwaith, y rhwydweithiau menter a'r partneriaethau sydd eu hangen i ffynnu.
- **Yn arloesol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol** - gan harneisio technoleg greadigol, ymchwil a thrawsnewid digidol er mwyn bod yn fwy effeithlon a chyflwyno cynhyrchion creadigol a'r diwylliant Cymreig, a'r Gymraeg gerbron cynulleidfaoedd a marchnadoedd newydd.
- **Yn gweithredu'n fyd-eang gyda'i olwg ar dwf** - gan hyrwyddo eiddo deallusol sy'n eiddo i Gymru, cwmnïau dan arweiniad Cymreig ac entrepreneuriaid creadigol Cymreig ar lwyfan y byd, gan gryfhau cysylltiadau â'r Cymry sydd ar wasgar fel rhwydwaith byd-eang o eiriolwyr, cydweithwyr a hwyluswyr y farchnad, a chynyddu allforion, buddsoddiadau a chynhyrchiant.

2. Pwrrpas y Gronfa

Pwrrpas y gronfa hon yw cefnogi prosiectau cydweithredol sy'n cryfhau diwydiannau creadigol Cymru drwy dwf cynaliadwy, arloesi, datblygu sgiliau a drwy roi budd i'r sector ehangach.

Bydd y gronfa'n cefnogi gweithgarwch cydweithredol sy'n helpu i dyfu'r sectorau creadigol yng Nghymru y rhoddir blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys **teledu, ffilm, gemau, animeiddio, cerddoriaeth, darlledu, y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyhoeddi**. Bydd hefyd yn cynorthwyo gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar **ddatblygu sgiliau, y gweithlu a doniau**, gan helpu i feithrin capasiti a gwydnwch y sector yn y tymor hir.

Bydd y cyllid yn cefnogi gweithgarwch sy'n cyfrannu at un neu fwy o'r **nodau** canlynol:

- Cryfhau economi greadigol Cymru drwy gefnogi busnesau creadigol, eiddo deallusol, cynnwys a diwylliant Cymreig, a'r Gymraeg, gan wneud y sector yn fwy cynhyrchiol, yn fwy cystadleuol ac ymestyn ei gyrhaeddiad yn rhyngwladol.
- Datblygu gweithlu medrus, amrywiol a chadarn drwy greu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygu'r gweithlu, prentisiaethau, cyfnewid gwybodaeth a mynediad at yrfaeodd creadigol ledled Cymru.
- Hyrwyddo gwaith teg, cynhwysiant a chadw doniau drwy gefnogi gweithgarwch sy'n gwella lles y gweithlu, yn creu cyfleoedd cynhwysol ac yn helpu i gadw doniau creadigol yng Nghymru.
- Galluogi busnesau i dyfu'n gynaliadwy drwy gefnogi datblygiadau arloesol, datblygu menter, gwella cynhyrchiant, cynaliadwyedd ariannol ac effaith economaidd hirdymor yn sector creadigol Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau ac ecosystemau creadigol rhanbarthol sy'n cryfhau'r seilwaith, yn annog cydweithrediadau ac yn creu cyfleoedd ar draws pob rhan o Gymru.
- Annog pawb i fabwysiadu a datblygu technolegau creadigol a dulliau arloesol sy'n eu gwneud yn fwy cystadleuol, yn fwy cynhyrchiol ac yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt dyfu i'r dyfodol.

Y Gofyn i Weithio mewn Partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o ofynion craidd y gronfa hon. Dylai ceisiadau fel arfer gynnwys un neu fwy o bartneriaid y prosiect. Os nad yw prosiect yn cynnwys partneriaid ffurfiol, rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir sut mae'r gweithgaredd arfaethedig yn brosiect partneriaeth yn ymarferol, a sut bydd yn sicrhau manteision mesuradwy y tu hwnt i'r sefydliad arweiniol sy'n gwneud y cais, ac yn cyfrannu at y sector diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru.

3. Pwy all wneud cais?

Cam 1 – Meini Prawf Cymhwysedd

Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r **holl** ofynion cymhwysedd canlynol:

Cymhwysedd y Sector

Yn gweithredu o fewn un neu ragor o'r sectorau canlynol:

- Teledu
- Ffilm
- Gemau
- Animeiddio
- Cerddoriaeth
- Darlledu
- Y Cyfryngau
- Newyddiaduraeth
- Cyhoeddi
- Sgiliau yn y Sector Creadigol

Gofynion y Sefydliad

- Bod wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn gweithredu oddi yno neu'n dangos y bydd gweithgarwch a/neu fudd y prosiect yn cael eu cyflawni yng Nghymru.
- Wedi dechrau masnachu ar 1 Ebrill 2025 neu cyn hynny.
- Yn dal i fasnachu pan gyflwynant y cais.
- Yn gallu darparu eu cyfrifon ariannol diweddaraf.

Gofynion Partneriaeth

Rhaid i ymgeiswyr:

- Gynnwys o leiaf un sefydliad partner allanol; neu
- Ddangos model cyflawni cydweithredol sy'n sicrhau manteision mesuradwy y tu hwnt i'r prif ymgeisydd a manteision ehangach i ddiwydiannau creadigol Cymru.

Rhaid i ymgeiswyr nodi'n glir:

- Partneriaid y prosiect.
- Y rhan maent yn ei chwarae i gyflawni'r prosiect.
- Beth maent yn ei gyfrannu i ganlyniadau'r prosiect.

Cydweddiad Strategol

Rhaid i ymgeiswyr nodi'n glir pa flaenoriaeth neu flaenoriaethau y mae eu prosiect yn eu cefnogi.

- Twf a Chynaliadwyedd y Sector

- Datblygu Sgiliau a Doniau
- Amrywiaeth, Cynhwysiant a Gwaith Teg
- Arloesi a Thechnoleg Greadigol
- Datblygu Rhanbarthol a Chymorth i'r Sector
- Hyrwyddo Cymru, yr Iaith a'i Diwylliant

Rheolau cyffredinol eraill y gronfa

- Os cynigir dyfarniad, rhaid i ymgeiswyr gwblhau eu prosiect yn llawn erbyn 31 Mawrth 2027.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgareddau penodol sy'n debygol o fod yn ddadleuol o ran defnyddio arian cyhoeddus yn briodol. Mae hyn yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â (1) hyrwyddo dibenion gwleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (7) unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.
- Rhaid i fusnesau a gefnogir fwriadu parhau i fasnachu a chynnal y swyddi sy'n bodoli adeg ymgeisio y tu hwnt i 1 Ebrill 2027.
- Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan berchennog y busnes ac nid gan asiantau sy'n gweithredu ar ei ran. Bydd ceisiadau a gyflwynir gan asiant ar ran busnesau yn cael eu gwrthod.
- Ni fydd unrhyw brosiect sy'n arwain at ddiswyddo staff yn cael ei gefnogi drwy'r gronfa hon.
- Nid ydym yn cefnogi defnyddio contractau dim oriau mewn modd annheg. Pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr.
- Dylid dangos tystiolaeth o'r holl wariant ar gyflogau drwy'r system Talu Wrth Ennill (PAYE) oni bai bod eithriadau'n cael eu rhoi fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r grant.
- Ni fydd dim taliadau difidend staff yn gymwys
- Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu nwyddau, gwasanaethau neu asedau cyfalaf gan ddefnyddio cyllid grant, rhaid caffael y rhain mewn ffordd deg, gystadleuol a thryloyw sy'n dangos gwerth am arian a rheolaeth briodol ar unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Efallai y bydd gofyn ichi ddangos tystiolaeth o'ch dull caffael, megis sut rydych yn cydymffurfio â'r gofynion caffael, y polisiâu caffael sefydliadol, neu gael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig. Rhaid cadw a chynnal unrhyw asedau a brynir drwy'r grant am o leiaf dair blynedd ar ôl derbyn taliad olaf y grant ac ni chaniateir eu gwerthu, eu trosglwyddo, eu prydlesu, eu morgeisio na'u symud y tu allan i Gymru heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

4. Pa brosiectau fydd yn cael eu cefnogi

Rhaid i'r cais am gyllid ymwneud â phrosiect sy'n cefnogi twf a datblygiad y sectorau creadigol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru, gan gynnwys teledu, ffilm, gemau, animeiddio, cerddoriaeth, darlledu, y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyhoeddi, a/neu sy'n cynorthwyo â datblygu sgiliau a doniau yn y sectorau hyn.

Dylai prosiectau wneud y canlynol:

- Cyflawni yn erbyn un neu fwy o nodau Cronfa Bartneriaeth Cymru Greadigol a nodir yn Adran 2.
- Dangos fel maent yn ymgysylltu â'r diwydiant, yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithredu â rhanddeiliaid, sefydliadau neu bartneriaid cyflawni perthnasol.
- Dangos manteision clir y tu hwnt i'r sefydliad arweiniol sy'n gwneud y cais a chyfrannu at y sector diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru.
- Bod â dyddiad dechrau, dyddiad gorffen, cynllun cyflawni clir a chanlyniadau diffiniedig ar gyfer y prosiect.
- Esgor ar fanteision mesuradwy i'r economi, i gymdeithas, i ddiwylliant, i'r gweithlu neu i sgiliau.
- Cynrychioli gwerth da am arian a dangos cynaliadwyedd hirdymor a gwaddol y tu hwnt i'r cyfnod cyllido.
- Dangos dull gweithredu cynhwysol a cheisio gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiannau creadigol.
- Esbonio sut mae'r prosiect yn cyfrannu, lle bo hynny'n berthnasol, at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymraeg 2050.
- Dangos bod arian cyfatebol wedi'i gadarnhau oddi wrth bartneriaid y prosiect neu drwy ffynonellau eraill.
- Ystyried cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwyno'n ddwyieithog.
- Cynnwys allbynnau, canlyniadau, trefniadau monitro a methodoleg werthuso glir.
- Dangos y bydd gwariant y prosiect yn digwydd yng Nghymru. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai ymgeiswyr roi esboniad.

Prosiectau Sgiliau

Yn ogystal â'r gofynion uchod, rhaid i brosiectau sy'n gysylltiedig â sgiliau wneud y canlynol:

- Cyflawni yn erbyn o leiaf un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol.
- Peidio â dyblygu'r ddarpariaeth hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli yn niwydiannau creadigol Cymru na gweithgarwch sydd eisoes yn cael ei ariannu'n llawn drwy gyllid cyhoeddus.
- Dangos manteision clir i unigolion a/neu sefydliadau yng Nghymru.
- Cefnogi datblygiad y gweithlu, cyflogadwyedd, datblygiad gyrfa a chadw doniau yn y diwydiannau creadigol.
- Dylai prosiectau sy'n cynnwys lleoliadau gwaith, mentora, hyfforddeiaethau neu brofiad yn y diwydiant gyfrannu at yr uchelgeisiau a nodir yn *Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau a'r Warant i Bobl Ifanc*.

- Esgor ar fanteision i fwy nag un sefydliad. Ni fydd prosiectau a fwriedir i wella sgiliau gweithwyr mewn un cwmni yn unig yn cael eu cefnogi drwy'r gronfa hon.
- Dangos eu bod yn gweithio mewn partneriaeth a bod y sector ehangach yn cael mantais.
- Egluro sut bydd y dysgu, yr adnoddau, y wybodaeth neu'r cyfleoedd yn cael eu rhannu ar draws y sector ehangach.

Dyma enghreifftiau o wariant:

Yr holl weithgareddau datblygu gan gynnwys:

- Costau ymchwil ac archwilio
- Cyflogau a chostau gweithwyr llawrydd
- Paratoi triniaeth/beibl
- Datblygu'r sgript a'r stori
- Costau technegol a chynhyrchu
- Creu cyflwyniad a/neu ddec pitshio, hynny yw triniaeth/darluniau (cymeriadau, amgylchedd a chefnidiroedd)/profion animeiddio/demo
- Costau creu bwrdd stori ac animatig
- Costau cerddoriaeth a recordio
- Costau golygu
- Hawliau eiddo deallusol/cyfreithiol
- Marchnata cychwynnol llai na 5% o gyfanswm gwerth y prosiect
- Cyfieithu (os yw'n berthnasol)
- Ymchwil (os yw'n berthnasol)
- Paratoi cyllideb cynhyrchu
- Paratoi cynllun cyllido
- Gweithgareddau amserlennu cynhyrchiad
- Paratoi strategaeth farchnata
- Ffilmio promo/peilot/rhagflas neu Sizzle Reel
- Costau teithio a chynhaliaeth, hynny yw petrol, bwyd neu lety (costau rhesymol ac yn benodol gysylltiedig â'r prosiect)
- Cyn-gynhyrchu
- Dylunio'r cysyniadau – fideo chwarae/crynodeb pitshio
- Creu Dogfen Dylunio Gêm
- Ysgrifennu
- Prototeip digidol
- Creu cynnwys/asedau UI a dylunio graffeg
- Creu cynnwys/asedau gweledol 3d
- Datblygu/rhaglennu
- Dylunio sain / cynhyrchu sain
- Creu sleisen/demo o gêm y gellir ei chwarae
- Profi a sicrhau ansawdd
- Marchnata cychwynnol llai na 5% o gyfanswm gwerth y prosiect
- Hawliau eiddo deallusol/costau cyfreithiol
- Graddfa PEGI
- Paratoi adnoddau ar gyfer cyflwyno'r prosiect hyfforddi

- Ffioedd siaradwyr
- Ffioedd hyfforddwyr
- Llogi ystafelloedd
- Costau swyddfa/gweinyddol
- Cyllid bwrsariaeth ar gyfer cyfranogwyr gan gynnwys costau gofal plant a theithio

Ni chewch wneud cais am y canlynol

Ni ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer:

- Costau sefydlu, gan gynnwys offer, gofod swyddfa a chostau recriwtio
- Costau yr aed iddynt cyn i lythyr wedi'i lofnodi yn cynnig cyllid gael ei gyhoeddi
- Difidendau staff
- Dyled bresennol yr aed iddi cyn 1 Ebrill 2026
- TAW y gellir ei hawlio'n ôl.
- Costau sydd eisoes wedi'u hariannu drwy ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill
- Disodli incwm a gollwyd neu ail-lenwi cronfeydd wrth gefn
- Ardrethi busnes
- Ffioedd cyfreithiol
- Costau dileu swyddi
- Gweithgareddau a allai ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru
- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo credoau gwleidyddol neu grefyddol
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur di-dâl neu sy'n annog hynny
- Cyfraniadau mewn nwyddau (cymorth neu gyfraniadau heblaw arian o ffynonellau eraill)
- Costau a ymrwymwyd iddynt neu a gefnogwyd yn flaenorol gan gronfeydd cyhoeddus eraill
- Fel arian cyfatebol ar gyfer cais arall am gyllid gan Lywodraeth Cymru
- Rheoli, trosglwyddo neu gydbwyso costau rhwng gwahanol weithrediadau sy'n perthyn i'r un busnes

Ar ben hynny:

- Nid yw ceisiadau gan fusnesau sydd wedi'u clustnodi i'w cau, neu sydd mewn perygl mawr o gau, yn gymwys.
- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus barhau i weithredu am o leiaf 12 mis ar ôl cael unrhyw gyllid.
- Os caiff busnes ei werthu neu ei ailgyfeirio, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill unrhyw gyllid sydd wedi cael ei ddarparu.

Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cyfrifon busnes perthnasol fel rhan o'r broses ymgeisio. Bydd y wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y cais a'r dogfennau ategol, yn cael ei defnyddio i asesu pwy sy'n gymwys, gan gynnwys a yw'r busnes yn anghymwys i gael cyllid o ganlyniad i'w amgylchiadau ariannol.

Faint o arian allwch chi wneud cais amdano?

Nid oes isafswm nac uchafswm grant o dan Gronfa Bartneriaeth Cymru Greadigol. Bydd pob cais cymwys yn cael ei asesu yn ôl ei haeddiant ei hun, gan ystyried ei gyfraniad at nodau'r gronfa, ei allu i gyflawni, ei werth am arian a'i fforddiadwyedd yn gyffredinol o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Nid yw arian cyfatebol yn ofynnol; fodd bynnag, dylai ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o unrhyw arian cyfatebol a gadarnhawyd. Os sicrhawyd arian cyfatebol, bydd hwn yn cael ei ystyried fel rhan o **Faen Prawf Asesu 6 Cam 2: Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian**, fel tystiolaeth o fuddsoddiad ychwanegol, ymrwymiad partneriaid a gwerth am arian. Ceidw Cymru Greadigol yr hawl i ddyfarnu llai na'r swm y gofynnwyd amdano. Mae'r holl gyllid yn ddewisol ac yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael.

5. Sut bydd y broses ymgeisio'n gweithio?

Cyn i chi Wneud Cais

Cyn gwneud cais, mae gennych chi'r opsiwn i drafod eich cynnig gydag un o Reolwyr Datblygu'r Sector Cymru Greadigol drwy e-bost yn CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Gwneir ceisiadau ar gyfer CWPF gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais. Ar ôl ei llenwi bydd angen ei chyflwyno i Cymru Greadigol, ynghyd â dogfennau ategol perthnasol (e.e. cyfrifon ariannol a datganiadau banc ar gyfer y 3 mis blaenorol i gadarnhau bod y busnes yn masnachu'n weithredol ac fel tystiolaeth o lif arian digonol). Dylech hefyd gynnwys tystiolaeth o gefnogaeth a chytundebau partneriaeth i gefnogi eich cais.

Bydd y cyfnod cyllido cymwys yn cwmpasu'r dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan 31 Mawrth 2027. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried nifer fach o geisiadau gwariant prosiect sy'n ymestyn i flwyddyn ariannol 2027/28 ond mae'r gronfa hon yn canolbwyntio ar wariant prosiect yn 2026/27.

Mae hon yn gronfa yn ôl disgresiwn sy'n amodol ar y gyllideb sydd ar gael ac nid oes proses apelio.

Y ffurflen gais

Mae 6 adran i'r ffurflen gais:

Adran 1 – Manylion yr Ymgeisydd

Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi roi manylion unrhyw swyddi ar adeg gwneud y cais a'r rhai hynny y rhagwelir y byddant yn cael eu diogelu neu eu creu o ganlyniad i'r cyllid grant hwn.

Adran 2 – Manylion y Prosiect

Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi egluro eich prosiect arfaethedig, pa effaith gaiff y grant ar y busnes a sut y bydd yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd eich busnes.

Mae'r adran hon yn gofyn am eglurder ac ymrwymiad ynghylch eich arferion gwaith teg. Mae gwaith teg yn golygu bod amodau amlwg yn bodoli yn y gwaith sy'n golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed a'u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith iach a chynhwysol lle caiff hawliau eu parchu.

Bydd y camau bydd sefydliad yn eu cymryd i fynd ar drywydd gwaith teg yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y sefydliad hwnnw. Efallai na fydd rhai camau'n briodol nac yn ymarferol i bob sefydliad, mater i bob sefydliad yw penderfynu pa gamau sy'n addas.

Gweler hefyd [Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU](#) i gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu i lenwi'r adran hon o'r cais.

Gofynnwn i chi hefyd ddisgrifio llinell amser y prosiect, yr adnoddau sydd eu hangen, unrhyw risgiau cysylltiedig a'r hyn y gallwch ei wneud i liniaru'r rhain.

Adran 3 – Gwybodaeth Ariannol

Yn yr adran hon bydd angen i chi roi manylion am gostau'r prosiect, ffynhonnell eich arian cyfatebol a faint o gyllid sydd ei angen arnoch i alluogi'r prosiect i fwrw ymlaen er mwyn i ni benderfynu ar hyfywedd y prosiect. Sylwer mai dim ond yr isafswm o gyllid sydd ei angen arnoch chi i alluogi cyflawni'r prosiect y gallwch chi wneud cais amdano, a bydd yn rhaid i chi lofnodi datganiad yn nodi hyn, cyn cyflwyno eich cais.

Adran 4 – Marchnata, cyhoeddusrwydd a'r Gymraeg

Yn yr adran hon bydd angen i chi ddarparu manylion am ba gyhoeddusrwydd fydd yn rhan o'r prosiect. Bydd gofyn i chi egluro'r cyhoeddusrwydd a'r marchnata sydd wedi eu cynllunio ar gyfer eich cynnig a sut y cânt eu gweithredu. Rhaid i chi hefyd gynnwys sut bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn eich prosiect a sut bydd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

Adran 5 – Rhestr wirio ar gyfer yr wybodaeth ofynnol

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol yn ogystal â'r ffurflen gais.

Adran 6 – Datganiadau

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllawiau hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant gan fod hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi'n cytuno â'r telerau ac amodau yn y ddogfen hon ac y gallwch chi gadarnhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y cais yn wir ac yn gywir, mae'n rhaid i chi roi tic yn y blwch a chyflwyno eich cais.

Ar ôl ei llenwi, cyflwynwch eich ffurflen gais a'r dogfennau ategol i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod hi'n **bosibl gwrthod** ceisiadau sydd â data anghyflawn neu anghywir neu geisiadau heb y dogfennau ategol angenrheidiol.

Ni ddylech ddechrau ar y prosiect nes bod eich cais wedi ei gymeradwyo a'ch bod wedi derbyn llythyr cynnig. Os byddwch yn gwneud hynny, gallech annilysu eich cais yn llwyr, hyd yn oed os byddwch yn llwyddiannus.

6. Gwerthuso Prosiectau

Mae Cronfa Bartneriaeth Cymru Greadigol yn rhaglen gyllido ddewisol. Dylai ceisiadau ddangos yn glir sut mae'r prosiect arfaethedig yn cyfrannu at un neu fwy o nodau'r gronfa a sut mae'n sicrhau manteision i'r sector diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru.

Dylai prosiectau gyfrannu at un neu ragor o'r canlynol:

- **Twf a Chynaliadwyedd y Sector**
- **Datblygu Sgiliau a Doniau**
- **Amrywiaeth, Cynhwysiant a Gwaith Teg**
- **Arloesi a Thechnoleg Greadigol**
- **Datblygu Rhanbarthol a Chymorth i'r Sector**
- **Hyrwyddo Cymru, yr Iaith a'i Diwylliant**

Mae prosiectau sy'n dangos eu bod yn cyd-fynd yn dda â'r nodau hyn, sy'n sicrhau manteision mesuradwy y tu hwnt i'r sefydliad arweiniol sy'n ymgeisio, ac sy'n darparu gwerth parhaol i'r sector diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru yn fwy tebygol o gael cymorth.

Unwaith y daw ceisiadau i law, byddant yn cael eu hasesu mewn dau gam:

Cam 1 – Asesiad Cymhwysedd

Bydd ceisiadau'n cael eu harchwilio yn erbyn y meini prawf cymhwysedd a nodir yn Atodiad 1. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl ofynion cymhwyso yn mynd ymlaen i gael eu gwerthuso'n llawn.

Cam 2 – Asesiad Gwerthuso

Bydd ceisiadau sy'n llwyddo yng Ngham 1 yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gwerthuso a nodir yn Atodiad 2.

Bydd yr argymhellion i gyllido yn seiliedig ar i ba raddau y mae prosiectau'n bodloni'r meini prawf gwerthuso, yn cyd-fynd â nodau'r gronfa, yn rhoi gwerth am arian ac yn rhoi manteision i'r sector diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru. Mae pob dyfarniad yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael ac ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Ar ôl i geisiadau ddod i law, bydd Cymru Greadigol yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gwerthusiadau, a allai gynnwys adolygiad o'r wybodaeth ariannol, archwiliadau twyll ac archwiliadau o gyfarwyddwyr y cwmni. Dylai ymgeiswyr sydd â dyledion heb eu talu gyda Llywodraeth Cymru gysylltu â Cymru Greadigol cyn gwneud cais.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Llythyr Cynnig Grant yn nodi telerau ac amodau'r cyllid, deilliannau'r prosiect, y gofynion monitro a'r trefniadau talu. Bydd gofyn i dderbynwyr grant ddarparu gwybodaeth ar gyfer monitro ac adrodd yn erbyn

yr allbynnau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt tra pery'r prosiect ac am hyd at 12 mis ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

Allbynnau a chanlyniadau

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau allweddol, gan gynnwys:

I. Datblygu Sgiliau a'r Gweithlu

- Hyfforddeion a gefnogwyd
- Lleoliadau a grëwyd
- Gweithdai a gynhaliwyd
- Datblygiad proffesiynol/bwrsariaethau
- Adnoddau dysgu a grëwyd

II. Twf Economaidd a Thwf y Sector

- Swyddi a grëwyd
- Swyddi a ddiogelwyd/a gynorthwywyd
- Gweithwyr llawrydd a gefnogwyd
- Digwyddiadau masnach
- Rhaglenni cymorth i'r sector

III. Cynhwysiant, Gwaith Teg a Lles

- Gweithgarwch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Ymrwymïadau Gwaith Teg
- Canlyniadau lles

IV. Arloesi, Cydweithio a'r Gymraeg

- Cynhyrchion/gwasanaethau/eiddo deallusol newydd
- Prosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol
- Clystyrau rhanbarthol a gryfhawyd
- Hybu'r Gymraeg
- Cynnwys Cymraeg neu ddwyieithog

Ar gyfer prosiectau sgiliau, adroddiad gwerthuso i gynnwys data dienw cyfanredol ar gyfranogwyr sy'n elwa o hyfforddiant, gan gynnwys;

- rhyw/amrywiaeth
- cyfradd oedran
- rhanbarth preswyllo yng Nghymru

Cymeradwyo Prosiectau

- Ar ôl derbyn cymeradwyaeth fewnol Llywodraeth Cymru, bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniad terfynol a bydd llythyrau cynnig yn cael eu hanfon at yr ymgeiswyr llwyddiannus
- Bydd angen llofnodi'r llythyrau cynnig a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru cyn i'r prosiect gychwyn.

- Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwmo i [God Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi](#)

Apelio

Mae CWPF yn gronfa ddewisol heb broses apelio benodol. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl i ni wneud ein penderfyniad.

Amserlen

Bydd y cyfnod cyllido cymwys yn cwmpasu'r dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan 31 Mawrth 2027.

7. Proses hawlio ac amodau'r gronfa

Bydd y dyfarniad yn cael ei dalu ar sail gwariant sydd wedi ei dalu. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth bod digon o lif arian neu arian wrth gefn ar gael i ariannu cyfanswm costau'r prosiect ar y pwynt darparu. Bydd yr hawliadau ar gyfer elfen grant Llywodraeth Cymru yn cael eu talu ar ôl cyflawni'r prosiect, hynny yw nid yw'r taliad yn cael ei wneud ymlaen llaw. [Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y rhai hynny sy'n derbyn grant \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Amserlen Hawlio

Gofynnir i chi roi amserlen taliadau wedi ei chynllunio ar gyfer y cyfnod cyllido llawn ar gyfer eich prosiect rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027. Bydd angen cyflwyno pob hawliad erbyn y dyddiad cau ar 1 Mawrth ar gyfer hawliad terfynol 2027.

Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen bodloni'r amodau talu a nodir yn amserlen y llythyr cynnig.
- **'Costau a Dalwyd'** yw costau nwyddau rydych chi wedi talu amdanynt neu a setlir fel arall gennych chi. Bydd angen tystiolaeth o daliadau ar gyfer pob sefydliad.
- Bydd ffurflenni hawlio'n cael eu hanfon ar gais ac mae modd eu cyflwyno drwy e-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru. Bydd angen darparu tystiolaeth lawn cyn gwneud unrhyw daliadau i brosiectau am ôl-daliadau. Rhoddir manylion yn eich llythyr cynnig am yr hyn y bydd angen i chi ei ddarparu wrth hawlio.
- Bydd y taliad yn cael ei wneud 4 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

Monitro ar ôl Cwblhau

Byddwn yn dal ati i gadw cofnod o'r allbynnau y cytunwyd arnynt i'w cyflawni am hyd at 12 mis ar ôl i'r cyfnod cyllido ddod i ben a byddant yn amod o'r cynnig grant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o'r CWPF. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn

archwilio gweithrediad ac effaith y gweithgareddau a gyflawnwyd. Bydd yn asesu i ba raddau mae modd priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau'n uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a wireddwyd effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru neu drydydd parti a fydd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu i chi roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddiennw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

Ad-dalu Grantiau

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb, a gorfodir hyn drwy ofyn am brawf ar ôl dyfarnu'r grant.

8. Rheoli cymorthdaliadau yn y Deyrnas Unedig

Rhaid i chi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cytundebau perthnasol sydd yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol. Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi ddarparu manylion unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi ei dderbyn.

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich cais yn cyfrif fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn unol â Rhan 3 Pennod 2 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 (neu SAFA* /cymorth de minimis yn flaenorol), yn unol ag Erthygl 3.2 paragraff 4 o Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn cyfyngu ar faint o gymorth y gall busnes ei dderbyn gan y wladwriaeth.

Os ydych wedi derbyn MFA, SAFA neu de minimis yn y gorffennol, dylech fod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig pan gawsoch y cymorth hwnnw. Bydd angen i chi ychwanegu'r dyfarniad hwn at gyfanswm cyffredinol eich MFA dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Rhaid iddo fod yn llai na thua £315,000 ynghyd ag unrhyw ddatganiadau neu hawliadau MFA yn y dyfodol, a rhaid i chi ddatgan y swm i ni yn ystod y cam ymgeisio.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Dibenion yn cael eu darparu yn unol â'r meini prawf Cymorth Gwladwriaethol y dyfernir y cyllid arnynt.

Os byddwch yn croesi'r trothwy hwn, yna chi fydd yn wynebu unrhyw gamau gweithredu a ddaw yn sgil hynny, gan gynnwys ad-dalu'r cymorth a dderbyniwyd.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y [Canllawiau Statudol ar Drefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU](#)

Os nad yw'r cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf yn briodol i'ch sefydliad, efallai y byddwn yn ystyried dyfarnu'r cyllid drwy [Gynllun Cymorth Sector Creadigol cofrestredig Llywodraeth Cymru yn unol â Chyfeirnod y cynllun SC11327.](#)

9. Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo ac i ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol drwy gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae blaenoriaethau iaith Gymraeg yn un o'r amrywiol feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hasesiad o addasrwydd strategol wrth adolygu prosiectau.

10. Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i bob cais llwyddiannus wneud y canlynol:

- Cytuno i gael ei gynnwys yn yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, deunydd marchnata ac mewn datganiadau i'r wasg y bydd Cymru Greadigol yn eu cynhyrchu.
- Fel amod cyllido, byddwch yn cytuno i gwrdd â'n tîm Cyfathrebu a Marchnata ac ymgymryd â hyd at 3 blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol. Bydd cydweithio yn cynnwys darparu cronfa o ddelweddau ac asedau fideo i'w defnyddio ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, a rhaid ichi gytuno i ni dynnu sylw at eich prosiect yn ein gweithgarwch cyhoeddusrwydd ni, yn y wasg ac yn ddigidol os bydd angen. Byddwn hefyd yn gofyn i chi gydnabod ein cefnogaeth a chynnwys ein logo ar wefannau'r prosiectau perthnasol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu cyn rhyddhau'r deunydd yn gyhoeddus.

11. Hysbysiad Preifatrwydd

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Mae manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar gael ar y [dudalen Hysbysiad Preifatrwydd](#).

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Nodiadau Cyfarwyddyd' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' **cyn** i chi ddechrau'r cais.

Atodiad 1 – Meini Prawf Cymhwysedd

Cam 1 - Meini Prawf Cymhwysedd - Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl ofynion cymhwysedd canlynol:

Gweithredu o fewn un neu ragor o'r sectorau canlynol y mae Cymru Greadigol yn rhoi blaenoriaeth iddynt:	
	• Teledu • Ffilm • Gemau • Animeiddio • Cerddoriaeth • Darlledu • Y Cyfryngau • Newyddiaduraeth • Cyhoeddi • Sgiliau yn y Sector Creadigol
Rhaid i'r ymgeiswyr arweiniol fod yn gweithredu yng Nghymru a bod wedi eu lleoli yno	
	• Bod yn gweithredu yng Nghymru a bod wedi'u lleoli yno neu'n dangos mai yng Nghymru y darperir gweithgarwch a/neu fudd y prosiect.
Wedi dechrau masnachu ar 1 Ebrill 2025 neu cyn hynny.	
	• Yn dal i fod yn masnachu adeg ymgeisio ac yn gallu darparu copi o'u cyfrifon ariannol diweddaraf.
Rhaid i'r 'Bartneriaeth' gynnwys o leiaf un sefydliad partner yn y gweithgarwch arfaethedig neu, os nad oes sefydliad partner, dangos ym mha ffordd y mae'r gweithgarwch arfaethedig yn brosiect partneriaeth a sut bydd yn sicrhau manteision ehangach i'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru.	
	Cam 1 Rhaid i ymgeiswyr wneud y canlynol yn glir: • Enwi o leiaf un sefydliad partner allanol; neu • Ddangos model cyflawni cydweithredol sy'n sicrhau manteision mesuradwy y tu hwnt i'r prif ymgeisydd a manteision ehangach i ddiwydiannau creadigol Cymru. • Enw llawn partneriaid y prosiect. • Y rhan maent yn ei chwarae i gyflawni'r prosiect. • Beth maent yn ei gyfrannu i'r prosiect.
Rhaid i'r cynnig gyd-fynd ag o leiaf un o flaenoriaethau canlynol y Gronfa Bartneriaeth:	
	• Twf y sector • Datblygu sgiliau a doniau • Amrywiaeth a chynhwysiant • Cymorth i'r sector • Hyrwyddo Cymru a diwydiannau creadigol Cymru

Atodiad 2 -Cam 2 - Meini Prawf Gwerthuso

Bydd angen i brosiectau fodloni'r egwyddorion cyllido a nodir uchod er mwyn symud i'r ail gam i'w hasesu ar sail y meini prawf a ganlyn:

MPG	Meini Prawf Gwerthuso	Pwysoliad	Sgôr
1	Cydweddu Strategaethau - Cyd-fynd â diben Cronfa Bartneriaeth Cymru Greadigol. - Cyfrannu at dwf cynaliadwy, arloesi, datblygu sgiliau a budd i'r sector ehangach. - Cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru Greadigol ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru. - Cyfrannu at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a'r Gymraeg yng Nghymru.	X 10	/5
2	Partneriaeth a Budd i'r Sector Ehangach - Cryfder a hygreddedd y dull partneriaeth. - Graddau'r cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid. - Cyfraniadau, cyfrifoldebau a rolau clir partneriaid y prosiect. - Tystiolaeth bod y manteision yn ymestyn y tu hwnt i'r prif sefydliad sy'n ymgeisio. - Potensial i gryfhau ecosystem ehangach y diwydiannau creadigol yng Nghymru. - Rhannu gwybodaeth, cydweithio a manteision hirdymor i'r sector.	× 10	/5
3.	Tystiolaeth o Angen a'i fod yn Weithgaredd Ychwanegol - Tystiolaeth bod angen cyllid gan Lywodraeth Cymru. - I ba raddau y bydd cyllid yn galluogi, yn cyflymu neu'n gwella'r ddarpariaeth. - Dangos bod cyllid cyhoeddus yn ychwanegu gwerth. - Pa mor debygol fydd y prosiect o fynd rhagddo heb gymorth.	× 5	/5
4.	Ansawdd ac Elfennau Arloesol y Prosiect - Ansawdd ac uchelgais y gweithgaredd arfaethedig. - Pa mor arloesol a gwreiddiol yw'r dull gweithredu. - Yn cyd-fynd â sectorau blaenoriaeth Cymru Greadigol a blaenoriaethau'r gronfa. - Y potensial i gefnogi twf, cynhyrchiant a chystadleurwydd y sector. - Y gallu i gyflawni'r gweithgaredd arfaethedig.	× 5	/5
5.	Deilliannau i'w Cyflawni fel rhan o'r Prosiect a'r Effaith - Ansawdd yr allbynnau a'r canlyniadau a'r gallu i'w cyflawni. - Canlyniadau datblygu sgiliau, gweithlu a doniau. - Canlyniadau amrywiaeth a chynhwysiant. - Canlyniadau'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. - Trefniadau mesur a gwerthuso. - Effaith ddisgwyliedig ar y sector diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru.	× 10	/5
6.	Costau a Gwerth am Arian y Prosiect - Gwerth am arian yn gyffredinol. - Pa mor rhesymol a phriodol yw'r costau. - Manteision a gynhyrchwyd o'i gymharu â'r cyllid y gofynnwyd amdano. - Tystiolaeth o arian cyfatebol neu gyfraniadau partner, lle bo hynny'n berthnasol. - Cynaliadwyedd ariannol a strategaeth ymadael. - Gwaddol hirdymor ac effaith y tu hwnt i'r cyfnod cyllido.	× 10	/5

Matrics sgorio

Sgôr	Dangosydd	Cyllidadwy
5	Eithriadol – Roedd yr ymateb yn gadarn, yn fanwl ac yn seiliedig ar yr holl agweddau perthnasol, gan ddarparu tystiolaeth gref y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, heb unrhyw wendidau na meysydd sy'n peri pryder o ran y cynnwys.	le
3	Ansawdd uchel – Roedd yr ymateb yn cyflwyno tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, yn dda mewn sawl ffordd ond gyda mân wendidau neu bryderon ynghylch y cynnwys.	le
1*	Gwael – Nid oedd yr ymateb yn darparu llawer o dystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, roedd gwendidau neu bryderon mawr o ran y cynnwys. Nid oedd llawer o fanylder/eglurder yn yr ymateb.	Na
0*	Annerbyniol – Nid oedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni; roedd yn gwbl anfoddfaol o ran y cynnwys. Nodwyd gwendidau, problemau neu fylchau sylweddol. Roedd yr ymateb wedi ei gyfleu'n wael a/neu'n anghyson.	Na

*Os cewch sgôr o 1 neu 0 ar gyfer unrhyw gwestiwn, bydd eich cais yn cael ei wrthod.